**COFNODION Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Teams, ar ddydd Mercher, Hydref 29ain 2025 am 6.30 yh.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol** | | | |
| Cynghorwyr | Cyng A. J. Evans | Cyng L. Wilkins | Cyng J. Tandy |
| | Cyng P. H. Roberts | Cyng R. Barnes | Cyng E. W. Nicholas |
| | Cyng S. Roberts | Cyng G. J. Davies | |
| | Cyng E. J. Davies | | |
| **Yn mynychu arlein** | Cyng K. D. L. Davie | Cyng D. Thomas | Cyng A. L. Thomas |
| | Cyng A. W. Jones | Cyng H. Davies | |
| **Ymddiheuriadau am Absenoldeb** | Cyng R. A. Davies | Cyng C. R. Thomas | Cyng D. W. Hopkins |
| | Cyng N. C. Davies | | |
| **Absennol:** | Cyng L. Jones | | |

**815.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**.

Derbyniwyd pedwar ymddiheuriad oddiwrth y Cyng R. A. Davies, y Cyng C. R. Thomas, y Cyng D. W. Hopkins a'r Cyng N. C. Davies.

**816.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT**.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**817.**

**COFNODION**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin, a gynhaliwyd ar Fedi 24ain, 2025

Cynigiwyd bod y Cofnodion yn gywir gan y Cyng S. Roberts ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng C. R. Thomas E. W. Nicholas.

- Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd ar Fedi 24ain, 2025.

____________________________

Cadeirydd

Cynigiwyd bod y Cofnodion yn gywir gan y Cyng S. Roberts ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng R. Barnes.

- Cofnodion y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd ar Hydref 15fed, 2025.

Cynigiwyd bod y Cofnodion yn gywir gan y Cyng A. J. Evans ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng J. E. Davies.

**Derbyn y cofnodion:**

Gofynnodd y Cadeirydd am gynnig i dderbyn yr holl gofnodion, a **Chynigiwyd** hynny gan y Cyng S. Roberts ac **Eiliwyd** y cynnig gan y Cyng L. Wilkins.

**818.**

## MATERION YN CODI O'R COFNODION

Materion yn Codi o'r Cyfarfod Cyffredin, a gynhaliwyd ar Fedi 24ain, 2025.

(i) Gofynnodd y Clerc bod y cyfarfod yn ystyried dilysu argymhelliad grant ar gyfer Neuadd Lesiant Penybanc a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Cyllid. Roedd y cyfanswm yn £1,575, sef 50% o gost y prosiect adnewyddu.

Roedd y Cyng S. Roberts wedi cynnig bod hyn yn cael ei dderbyn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng P. H. Roberts.

**Penderfynwyd** dyfarnu'r grant yn y swm a argymhellwyd.

(ii) Gofynnnod y Clerc bod y cyfarfod yn ystyried dilysu argymhelliad Praesept y Pwyllgor Cyllid; roedd y Cyng D Thomas wedi ymyrryd gan ddweud bod y Pwyllgor Cyllid wedi argymell hyn oherwydd ei fod o dan y cyfradd chwyddiant. Dywedodd y Cyng A. J. Evans bod hyn wedi ei gytuno ar y llynedd yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid, sef ystyried bod y cynnydd yn cael ei dracio'n flynyddol.

Roedd y Cyng A. Jones o'r farn bod angen cyfiawnhau codi'r Praesept oherwydd bod angen codi arian ychwanegol at ddiben penodol.

Eglurodd y Clerc bod rheswm bod y costau staffio wedi cynyddu; roedd cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi codi a bod staff cyflenwyr, gan gynnwys y Cyngor Sir, wedi wynebu'r un codiadau. Roedd cynnydd o tua 5% yn y Cytundeb Cynnal a Chadw'r Tiroedd ac roedd costau ynni uwch wedi cael effaith.

Cadeirydd

Cynigiodd y Cyng J. E. Davies bod y cyfarfod yn derbyn y codiad o 3.5%, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng S. Roberts. Cynhaliwyd bleidlais ac roedd y canlyniad yn unfrydol o blaid y cynnig.

**Penderfynwyd** codi'r Praesept o 3.5% ar gyfer 2026/27.

(iii) Dywedodd y Clerc bod Lwfansau'r Aelodau, y Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion wedi'u trafod fel rhan o'r ystyriaethau cyllideb, ac argymhellwyd bod y symiau yn aros yn ddigyfnewid, sef £156.00 yr aelod y flwyddyn, ynghyd â thaliad o £15.00 am bob cyfarfod, a bod symiau ychwanegol blynyddol gwerth £500.00 yn cael eu talu i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

Cynigiodd y Cyng J. E. Davies bod y cyfarfod yn derbyn y cynnig, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng P. H. Roberts. Cynhaliwyd bleidlais ac roedd y canlyniad yn unfrydol o blaid y cynnig.

**Penderfynwyd** cadw'r lwfanasau ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd yn ddigyfnewid.

(iv)Gofynnodd y Clerc bod y cyfarfod yn ystyried cymeradwyo argymhelliad derbyn Adolygiad y Gyllideb 2025/26 am y cyfnod o 6 mis.

Cynigiodd y Cyng S. Roberts bod y cyfarfod yn derbyn y cynnig, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng P. H. Roberts.

**Penderfynwyd** derbyn Adolygiad y Gyllideb 2025/26 am y cyfnod o 6 mis, fel y darparwyd gan y Clerc.

(v) Gofynnodd y Clerc bod y cyfarfod yn ystyried cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Cyllid o ran y Gyllideb 2026/27.

Cynigiodd y Cyng S. Roberts bod y cyfarfod yn derbyn y cynnig, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng P. H. Roberts. Cynhaliwyd bleidlais ac roedd y canlyniad yn unfrydol o blaid y cynnig.

**Penderfynwyd** derbyn y Gyllideb a luniwyd gan y Clerc ar gyfer 2026/27.

(vi) Gofynnodd y Cyng A. Jones am ddiweddariad ynghylch yr hawliad am arian Adran 106 am dir ger Dôl y Dderwen. Eglurodd y Clerc ei fod wedi'i hysbysu gan y Cyngor Sir bod y contractwr wedi'i anfonebu am draean o'r arian, ond heb dalu'r anfoneb hyd yn hyn. Roedd anfoneb atgoffa wedi'i hanfon, a dywedodd ei fod yn disgwyl derbyn y taliad cyntaf yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gwnaeth y Cyng A. Jones gais bod yr esboniad yn cael ei anfon ato drwy ebost, oherwydd nid oedd y derbyniad yn dda iawn ac nid oedd wedi derbyn yr holl wybodaeth drwy'r ddolen Teams.

____________________________

Cadeirydd

Cytunodd y Clerc ebostio'r eglurhad.

(vii) Roedd y Cadeirydd wedi ychwanegu adolygiad y Comisiwn Ffiniau oherwydd bod y dyddiad cau ar gyfer gwneud sylwadau yn agosáu. Nid oedd y Cadeirydd yn cytuno bod uno Wardiau Llandybïe a Phenygroes yn dderbyniol ac, wedi trafodaeth, eglurodd y Cyng D. Thomas bod y newid ffin yn berthnasol i'r Cyngor Sir, ac ni fyddai'n effeithio ar Gynghorau Cymuned.

Roedd y Cadeirydd wedi cynnig ei fod ef a'r Clerc yn gofyn cyngor y Cyngor Sir, a'u bod yn anfon ymateb; eiliwyd y cynnig gan y Cyng L. Wilkins.

**Penderfynwyd** danfon ymateb drwy ddwylo'r Clerc a'r Cadeirydd.

## CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

**819.**

## GOHEBIAETH

**(i) Adroddiadau'r Heddlu**

**Adroddiadau'r Heddlu ar Fedi 1af, 2025**

| **Ardal Llandybïe** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | 10 |
| Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol | **2** |
| Y Drefn Gyhoeddus | **3** |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | **2** |

| **Penygroes gan gynnwys y Blaenau a Chaerbryn;** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | **3** |
| Difrod Troseddol | **1** |
| Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol | **1** |
| Bwrgleriaeth | **1** |

| **Saron a Chapel Hendre** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | 17 |
| Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol | 1 |
| Cyffuriau | 1 |

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | 1 |

Er gwybodaeth i'r aelodau a'r cyhoedd, mae ffigyrau Trosedd Ardal Cymuned Llandybïe ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen isod. Roedd y Clerc wedi argymell bod yr aelodau yn astudio map trosedd eu hardal, gan ei fod yn cynnig peth manylion ynghylch y ffigyrau trosedd drwy chwilio'r adran 'yn fy ardal i'.

Llandybie| Police.uk (www.police.uk)

Roedd y Cyng D. Thomas wedi ymyrryd gan ddweud ei fod yn siomedig bod y ddau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ei ward i ffwrdd o'r gwaith am amrywiol resymau, a nid oedd hyn yn blismonma da ar gyfer yr ardal. Cynigiodd y Clerc ysgrifennu at Dafydd Llewellyn, Comisiynydd yr Heddlu, i ofyn am ddeialog, a derbyniwyd hyn.

**(ii) Diweddariad ynghylch Gilfach Iago**

Roedd y Clerc wedi cadarnhau taw'r unig ddiweddariad roedd wedi derbyn oedd bod y mater gam ar y blaen, a byddai'n cysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto er mwyn derbyn cadarnhad pellach ynghylch amserlen y datrysiad tebygol.

**Penderfynwyd** nodi diweddariad y Clerc ac aros am ymateb pellach.

**820.**

**Adroddiad y Clerc, 27/10/25**

**At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor.**

**(a) Parciau:**

**(i) Saron a Chapel Hendre Adran 106. Yn dal ar y restr i'w ddilyn i fyny gyda Chyngor Sir Caerfyrddin**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad pellach ynghylch y ddau swm, sef £22,320.00 ar gyfer darpariaeth addysg at y dyfodol yn Saron, a £17,680.00 ar gyfer Parc Cwmgwili. Nid oedd unrhyw newyddion pellach i'w gofnodi.

**(b) Llwybrau Troed.**

**51/23 Cwmfferws:** Roedd y Cyng C. R. Thomas wedi cofnodi bod ceffylau'n cael eu marchogaeth ar yr Hawl Tramwy Cyhoeddus. Er bod Llwybr Ceffylau yn gysylltiedig â'r llwybr troed, ni chaniateir marchogaeth arno. Mae'r Clerc wedi gofyn i Dîm y Cyngor Sir i archwilio codi arwyddion i rybuddio marchogion.

Cadeirydd

**51/17 Capel Hendre:** Wedi'i gofnodi gan y Cyng N. C. Davies. Mae'r llwybr troed yn llawn llysdyfiant ac wedi'i rhwystro. Mae'r Clerc yn trefnu cwrdd â'n contractwr ar y safle gyda'r bwriad o'i gynnwys ar y rhestr o doriadau contract, ac ail-agor y llwybr. Mae'r mater dal ar droed.

**51/23 Cwmfferws i Saron:** Eitem sy'n disgwyl sylw, ac a nodwyd gan y Cyng N. C. Davies; bydd y Clerc yn darganfod pwy yw'r perchennog ac yn trefnu cyfarfod gyda nhw i drafod atgyweirio'r ffens sy'n edrych dros yr afon.

**51/51 Llwybr troed heol y gât;** y mater wedi'i gofnodi gan y Cyng P. H. Roberts; mae'r Clerc wedi cwrdd â'r Cyng Roberts ar y safle ac yn bwriadu adrodd yn ôl ynghylch y mater hwn, sydd wedi bodoli ers tro byd.

**(c) Prosiect Parc Banc Y Ddraenen**

**Diweddariad:** Mae'r Clerc yn monitro'r sefyllfa yn dilyn her i'r Cais Cynllunio sy'n cynnwys y taliadau Adran 106.

**(d) System Wresogi yn y Pafiliwn Bowlio a Thenis:**

Mae'r Clerc yn y broses o ail-brisio'r prosiect oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio oddiar mis Mawrth eleni.

**(e) Uwchraddio Parc Saron.**

Mae Wicksteed, y cwmni a ddewiswyd, yn y broses o gynhyrchu'r eitemau ar gyfer y parc, a disgwylir y bydd y cyfan wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2026.

**(f) Cloi'r gât ym Mharc Penygroes:**

Mae'r contractwr a ddewiswyd, M B Fencing, yn y broses o gynhyrchu'r gatiau newydd ac, am y mis nesaf, bydd preswylydd lleol yn parhau i gloi gatiau'r brif fynediad tan y disgwylir y bydd y gatiau newydd wedi'u gosod yn eu lle.

**(g) Diweddariad ynghylch symud y Siambr a'r swyddfa:**

Bydd y Clerc yn diweddaru'r Cynghorwyr ynghylch derbyn cais gan y landlordiaid, yr Eglwys yng Nghymru, i adael y siambr erbyn diwedd mis Tachwedd.

**Diweddariad yn y cyfarfod:** Roedd y Clerc wedi cynnwys y Cyng K. D. L. Davies yn y drafodaeth. Roedd y Cyng Davies wedi egluro bod Ysgol Gyfun Dyffryn Aman yn chwilio am gelfi i'w gosod mewn datblygiad newydd yn yr

ysgol, ac wedi cynnig ein bod yn rhoi iddynt y celfi nad oes ei angen arnom, ar yr amod eu bod yn casglu'r celfi.

Roedd y Cyng A. Jones o'r farn nad oedd hyn yn broblem, ar yr amod bod llwybr archwilio yn bodoli.

Cynigiwyd bod hyn yn caei dderbyn gan y Cyng L Wilkins ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng S. Robert. **Penderfynwyd** bod y Clerc a'r Cyng Davies yn cysylltu â'r ysgol.

**(h) Cloc y Chwarel.**

Mae'r cloc wedi stopio, ac mae ymgais arferol y Clerc i'w gadw ar amser wedi methu. Mae cwmni Smiths of Derby wedi archwilio'r broblem ac mae'n glir bod y cyflenwad trydan o brif adeilad y Capel gerllaw wedi'i ddiffodd.

Mewn ymgais i ail-ddechrau'r cloc mae'r Clerc wedi treialu batri, gyda'r gwaith yn cael ei gyflawni gan Stuart Thomas, gŵr busnes lleol. Ar hyn o bryd mae'r cloc yn cadw amser.

Gofynnodd y Cyng A. J. Evans p'un ai y byddai hyn yn effeithio ar warant y Cloc; eglurodd y Clerc taw batri mwy o faint yw hwn, a ddim yn amnewid neu'n addasu'r mecanwaith bresennol.

**(i) Biniau Baw Cŵn yng Nghwmfferws.**

Mae'r Clerc wedi cwrdd â Thîm Gwaith Tir Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n cynnal tendrau ar gyfer parciau i drafod gwacau'r biniau ymhob pen o Saron a Chwmfferws yn amlach, a gofyn os oes modd darparu biniau ychwanegol. Y gobaith yw y byddant yn ymateb i'w gais yn ystod yrw wythnos nesaf.

**(j) Trefniadau Sul y Cofio.**

Cynhelir yr orymdaith flynyddol ar ddydd Sul, Tachwedd 9fed, yn cyrraedd yr eglwys am 11 yb, Bydd y Clerc yn cwrdd â'r Cadeirydd am 10.15 yb yn ein swyddfeydd yn Llandybïe i drefnu trosglwyddo'r gadwyn. Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn darparu'r dorch sydd i'w chyflwyno gan y Cadeirydd tra y byddwn ni, y Cyngor Cymuned, yn parchu'n hymrwymiad i ddarparu torch ar gyfer y gwasanaeth yn Saron.

**(k) Trawsnewid y Pafiliwn i greu swyddfeydd.**

Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbrisiau o dri contractwr - JJ Handyman £4574, Mitchell Co Services £8,032 a Conner Thomas £4,098.20 - i drawsnewid yr ystafell gawod i greu swyddfa. Bydd y Clerc yn gofyn bod yr aelodau yn cytuno, drwy benderfyniad, ein bod yn gwahodd Conner Thomas i wneud y gwaith.

Cadeirydd

Cynigiodd y Cyng S. Roberts bod y cyfarfod yn derbyn y cynnig, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng P. H. Roberts. Cynhaliwyd bleidlais ac roedd y canlyniad yn unfrydol o blaid y cynnig.

**Penderfynwyd** gwahodd Conner Thomas i wneud y gwaith.

Gofynnodd y Cyng A. Jones bod symud y swyddfa yn cael ei atgoffa drwy dynnu llun yn y Siambr bresennol. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai modd gwneud hyn cyn neu ar ôl cyfarfod nesaf y pwyllgor. Cynigiodd y Clerc drefnu hyn.

**(l) Trawsnewid sied ym Mhafiliwn Llandybïe.**

Roeded cwmni Hardiman wedi cyflwyno dyfynbris o £1,941.88 fel y cyllidwyd am wneud y gwaith, ond roeddent wedi codi ond £1,601; serch hynny roedd angen gwaith ychwanegol i osod draeniad yn ei le – roedd y Clerc wedi galw yn y sied ar ddydd Sul gwlyb iawn, ac roedd y llawr yn wlyb, gyda dŵr yn dod i fewn o'r seiliau. £756 yw cost y gwaith hyn.

Dai Nicholas – Clerc

Hydref 27ain, 2025

**821. Materion Ariannol**

**Adroddiad Ariannol ar Hyydref 27ain, 2025**

**INCWM**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Praesept | 193860.00 | 129240.00 | **-64620.00** |
| Ffurflen TAW (ad-daliad) | 24000.00 | 16118.40 | **-7881.60** |
| Gweinyddu | 3000.00 | 1708.61 | **-1291.39** |
| Llog banc | 4300.00 | 212.56 | **-4087.44** |
| Cytundebau Llogi/Grantiau/Adran 106 | 20000.00 | 23050.00 | **3050.00** |
| **Cyfanswm** | 245160.00 | 170329.57 | **-74830.43** |

**GWARIANT**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|

Cadeirydd

| | | GWIRIONEDDOL | |
|---|---|---|---|
| Torri'r Glaswellt | £31,500.00 | £13,524.38 | **£17,975.62** |
| Cyflogau'r Staff a PAYE | £57,252.00 | £31,137.47 | **£26,114.53** |
| Gwasanaethau Swyddfa | £7,500.00 | £6,535.47 | **£964.53** |
| Yswiriant | £3,240.00 | £3,295.22 | **-£55.22** |
| Grantiau Ariannol (Mannau Agored, Neuaddau, Mynwentydd) | £20,000.00 | £11,049.00 | **£8,951.00** |
| Cynnal a Chadw Asedau (Cyfleusterau Cyhoeddus, Adeiladau, Parciau, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Claddfeydd). | £47,495.00 | £25,194.92 | **£22,300.08** |
| Gwasanaethau a Thanysgrifiadau | £6,050.00 | £4,906.40 | **£1,143.60** |
| Lwfansau'r Aelodau a PAYE | £14,000.00 | £1,216.00 | **£12,784.00** |
| Costau Etholiad | £8,000.00 | £7,011.27 | **£988.73** |
| Adran 137 | £20,000.00 | £1,800.00 | **£18,200.00** |
| Goleuo | £4,000.00 | £6,207.42 | **£2,207.42** |
| Datblygu Cymunedol | £55,565.00 | £37,819.14 | **£17,745.86** |
| **Cyfanswm** | £274,602.00 | £149,696.69 | **-£124,905.31** |

**Taliadau a wnaethpwyd ym mis Hydref 2025**

| | | |
|---|---|---|
| 02/10/2025 | KD Landscaping, Cyfleusterau Cyhoeddus, Medi | 862.50 |
| 02/10/2025 | JJ Handyman, wedi'i ailgyflwyno ar ôl dychwelyd anfoneb rhif 1114 | 65.00 |
| 02/10/2025 | Mike Pugh Signs, arwydd ar gyfer y gystadleuaeth Sbwriel yn y Parc, anfoneb 5229 | 444.00 |
| 02/10/2025 | Kaye Brayley, Gât ym Mhenygroes, anfoneb 02 | 25.00 |
| 02/10/2025 | Un Llais Cymru, Hyfforddiant Cynghorydd x 1, anfoneb 10018 | 42.00 |
| 02/10/2025 | Martin Davies, cyfieithu'r cylchlythr, anfoneb 23 09 2025 | 65.52 |
| 02/10/2025 | LHP Software, trwydded, anfoneb 85049 | 169.20 |
| 02/10/2025 | Cyngor Sir Caerfyrddin, Arolwg Blynyddol Blaenau, anfoneb Np. 900163539 | 102.00 |
| 02/10/2025 | Martin Davies, Cyfieithu Cofnodion Gorffennaf, anfoneb 11 09 2025 | 301.92 |
| 02/10/2025 | Morgan & Morgan, Cysylltiad, anfoneb 99168 | 35.99 |
| 06/10/2025 | Kaye Brayley, agor y Gât ym Mhenygroes, anfoneb 03 | 210.00 |
| 06/10/2025 | Martin Davies, Cofnodion | 144.00 |
| 07/10/2025 | Morgan & Morgan, gosod Open Reach, anfoneb No. 99512 | 144.00 |

Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| 07/10/2025 | Smiths of Derby, Atgyweirio Cloc y Chwarel, anfoneb 138173 | 210.00 |
| 07/10/2025 | Padiau a Batris i'r diffibrilwyr, anfoneb LLAND 005 | 678.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Clwb Rygbi Rhydaman, Medi 2025 | 250.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Banc Bwyd Rhydaman, Medi 2025 | 1000.00 |
| 10/10/205 | Grant Cymunedol, Cymdeithas Gefeillio Llandybïe, Medi 2025 | 200.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Cymdeithas Cyfeillion Dyffryn Aman, Medi 2025 | 250.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Goleuadau'r Nadolig Eglwys Llandybïe, Medi 2025 | 250.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Ambiwlans Awyr Cymru, Medi 2025 | 1000.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Ifanc eu Calon Penygroes, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Menter Cwm Gwendraeth Elli, Medi 2025 | 250.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Merched Y Wawr Penygroes, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Sefydliad y Merched Llandybïe, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Clwb Vis dydd Mawrth, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Undeb y Mamau Llandybïe, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Y Lloffwr, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Llandybïe, Medi 2025 | 500.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Neuadd Goffa Llandybïe, Medi 2025 | 1699.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Cymdeithas Lesiant Penybanc, Medi 2025 | 850.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Cymdeithas Lesiant Saron, Medi 2025 | 850.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Clwb Bowlio Mat Byr, Medi 2025 | 250.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Clwb Bowlio Llandybïe, Medi 2025 | 750.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Cymdeithas Caeau Chwarae Cenedlaethol, Medi 2025 | 650.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Calfaria, Capel y Bedyddwyr, Penygroes, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Capel Jerusalem, Penygroes, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol. Capel Mynydd Sion, Penygroes, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Capel Y Drindod, Cross Hands, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Eglwys Efyngylaidd, Penygroes, Medi 2025 | 300.00 |
| 10/10/2025 | Grant Cymunedol, Soar, Capel y Bedyddwyr, Llandyfan, Medi 2025 | 300.00 |

Cadeirydd

**Taliadau i'w gwneud ar ddiwedd mis Hydref a dechrau mis Tachwedd:**

- JJ Handyman, Sied, £1,601.88
- JJ Handyman, Gwaith Draenio, £756.00
- Connor Thomas, Gwaith Saer ac Adeiladu, £4,098.28
- K D Gardening Services, £891.25
- Morgan & Morgan, £83.99
- Kaye Brayley, £235
- Cyngor Sir Caerfyrddin, £3,088 (Ardrethi Blynyddol, Y Siambr a'r Pafiliwn Bowlio)
- Cyngor Sir Caerfyrddin, £18,268.38 (Cytundeb Cynnal a Chadw'r Tiroedd am y Chwarter $1^{af}$ ac $2^{ail}$).

Gofynnodd y Clerc bod y taliadau, a'r taliadau sydd i'w gwneud, yn cael eu derbyn; **penderfynwyd** derbyn y taliadau a wnaethpayd, ynghyd â'r taliadau sydd daladwy.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **BALANS Y CYFRIFON** | | | | | |
| | | | | | **£** |
| | | | | | |
| **Dygwyd Ymlaen (balans cychwynnol yn y banc)** | | | | | **£244,691.25** |
| | | | | | |
| **Ychwanegu incwm yn ystod y flwyddyn** | | | | | **£170,329.57** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | **£415,020.82** |
| | | | | | |
| **Llai y gwariant** | | | | | **£174,865.20** |
| | | | | | |
| **Balans wrth Gau'r Daenlen Gyllid** | | | | | **£240,155.62** |
| **(derbyniadau - taliadau)** | | | | | |
| | | | | | |
| **Taliadau/sieciau na's cyflwynwyd** | | | | | £0.00 |
| | | | | | |
| **GWIR FALANS Y DATGANIAD** | | | | | **£240,155.62** |

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Clerc.

**(ii) Diweddariad ynghylch yr Archwiliad Allanol, 2024/25**

Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod yr Archwiliad Allanol yn y broses o gael ei gwblhau ac roedd ambell ymholiad wedi'u derbyn ar ffurf ebost ond, hyd yn hyn, ni dderbyniwyd unrhyw benderfyniad terfynol.

Cadeirydd

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn diweddaru'r Cyfarfod Cyffredin nesaf ym mis Tachwedd.

**822.**

**Cyllid Adran 106.**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad oddiwrth y Cynghorwyr Sir a oedd yn bresennol.

**823.**

**Ceisiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd**

Roedd y Cadeirydd wedi rhannu manylion am ei ddiwrnod allan pleserus, yng nghwmni'r Clerc, wrth iddynt fynychu digwyddiad cymdeithasol misol Cymdeithas Gefeillio Llandybïe. Eglurodd ei fod wedi darganfod bod aelodau'r Cyngor Cymuned yn aelodau anrhydeddus, a bydd yn mynychu'r cyfarfod ffurfiol nesaf er mwyn archwilio cyfleoedd o gydweithio gyda'r grŵp.

Dywedodd y Clerc ei fod ef a'r Swyddog Gweinyddol wedi ymweld â gweddw Brian James, cyn swyddog technegol Cyngor Cymuned Llandybïe, ac roedd y ddau wedi cwrdd â Mrs James, gan gyflwyno iddi tusw o flodau a charden o gydymdeimlad.

Roedd Mr Brian James wedi dilyn gyrfa hir a nodedig ym maes Llywodraeth Leol. Wedi iddo orffen ei gyfnod o Wasanaeth Gwladol yn hwyr yn y 1950au aeth ymlaen i astudio a graddio mewn Pensaernïaeth, gan ymuno â Chyngor Bwrdeistref Dinefwr yn y 1960au a threulio gyrfa hir tan ei ymddeoliad yn 1996. Ar yr adeg honno ymunodd â Chyngor Cymuned Llandybïe, gan wasanaethu fel Swyddog Technegol rhan-amser.

**824.**

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar ddydd Mercher, Tachwedd 26ain, 2025, a chyfarfod y Pwyllgor Mannau Gwyrdd ar Dachwedd 19eg, 2025.

Bydd y Clerc yn dosbarthu amser y cyfarfod ar y 19eg i'r holl Gynghorwyr, fel eu bod oll yn bresennol i dynnu llun olaf yn y siambr.

**825.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, **daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben** am 7.34 yh.

Cadeirydd